Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Medi 2020

Annwyl Lynne

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ac am y cwestiynau ychwanegol. Nodir ein hymateb yn yr atodiad isod.

Yn gywir

Meilyr Rowlands

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Atodiad**

**BIL CWRICWLWM AC ASESU: Y GYMRAEG**

**A allwch chi rannu unrhyw fanylion pellach o ran eich awgrym? Er enghraifft, a allwch chi gadarnhau p'un a ydych yn awgrymu na ddylai Saesneg fod yn elfen orfodol cyn 7 oed, a bod yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn gallu dewis p'un ai i'w addysgu neu beidio cyn yr oed hwn? A fyddech chi'n awgrymu bod y Gymraeg yn elfen orfodol o 3 oed? A allai fod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r ateb amgen hwn?**

Mae consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd trochi Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, yn enwedig os yw dyheadau'r polisi iaith Gymraeg cenedlaethol i'w cyflawni. Mae ymdeimlad cyffredinol y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gymell rhai ysgolion yn anfwriadol i beidio ag optio allan o Saesneg gorfodol. Yn y sesiwn dystiolaeth, awgrymais y gallai'r ddwy iaith fod yn orfodol o 7 oed ac y gallai ysgolion neu awdurdodau gael dewis rhwng Cymraeg a Saesneg cyn yr oed hwn. Bwriad y cynnig amgen hwn oedd hyrwyddo trafodaeth a dangos y gellir dirnad atebion deddfwriaethol gwahanol, ac ar ôl hynny mae cynigion amgen pellach wedi'u gwneud. Yr hyn sydd gan y cynigion amgen yn gyffredin yw nad yw Saesneg yn orfodol i blant dan 7 oed mewn ysgolion lle defnyddir Cymraeg ar gyfer trochi. Nid ydym yn rhagweld canlyniadau anfwriadol gyda'r awgrym yma, a chaiff effaith gyfwerth â'r cynnig optio allan arfaethedig. Nid ydym yn ffafrio unrhyw rai o'r opsiynau o'r math hwn, a theimlwn y dylent gael eu harchwilio ymhellach.

**BIL CWRICWLWM AC ASESU: CYLLIDO**

**A allwch chi sicrhau'r Pwyllgor, yng ngolau'r datganiad uchod, eich bod yn hyderus bod darpariaethau'r Bil yn fforddiadwy o safbwynt Estyn?**

Mae Estyn yn hyderus fod darpariaeth y Bil yn fforddiadwy o'n safbwynt ni. Rydym wedi gweithio gyda swyddogion ac wedi cyfrannu at yr asesiad effaith rheoleiddiol. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, eglurais pam mae'n anodd cyfri cost y cyfryw waith yn union. Fodd bynnag, mae gwaith arolygu statudol a gwaith thematig, a nodir drwy'r llythyr cylch gwaith blynyddol, yn darparu digon o gyfle i ni fonitro datblygiadau'r cwricwlwm, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y cyllid sydd ei angen ar Estyn i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad annibynnol 'Arolygiaeth Dysgu' (2018) oedd y dylai trefniadau cyllido Estyn gael eu hadolygu i alluogi cynllunio tymor hwy ac i gydnabod goblygiadau o ran adnoddau weithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diwygio addysg.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn

Dyddiad | Date: 23 Medi 2020

Pwnc | Subject: **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Annwyl Meilyr,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor wythnos diwethaf, ynghyd â'ch cydweithiwr Claire Morgan, i roi tystiolaeth ar ran Estyn ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Nid oedd amser i drafod rhai cwestiynau yn ystod y sesiwn. Rwyf wedi cynnwys y cwestiynau hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn a byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb ysgrifenedig iddynt erbyn 8 Hydref 2020 i helpu i lywio ein gwaith craffu yng nghwmni'r Gweinidog yn nes ymlaen y mis hwnnw.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: Y GYMRAEG**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Medi, pan ofynnwyd i chi am ddarpariaethau'r Bil ynghylch trochi yn y Gymraeg, gwnaethoch ymateb **fel a ganlyn**:

> "I think that most people agree that we do need the ability to have full immersion in the Welsh language, but we've said in our response to the consultation that it's worth reconsidering whether there's a better way of achieving that in legislation than the proposed opt-out. I mean, I'm not an expert in drafting legislation, but you could imagine that Welsh and English could be mandatory after the age of seven, and it could be for the school or the local authority then to choose which of the two languages was used before then."

- A allwch roi rhagor o fanylion am yr awgrym hwn? Er enghraifft, a allwch gadarnhau a ydych yn awgrymu na ddylai Saesneg fod yn elfen orfodol cyn 7 oed ac y dylai awdurdod lleol allu dewis a ddylid addysgu Saesneg cyn yr oedran hwn? A fyddech yn awgrymu bod y Gymraeg yn elfen orfodol o 3 oed ymlaen? A fyddai unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r datrysiad amgen hwn?

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: CYLLIDO**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Medi, pan ofynnwyd i chi am y wybodaeth a ddarparwyd gan Estyn i helpu i lywio'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil, gwnaethoch ymateb fel a ganlyn:

> "… I have to admit that these calculations, estimates, are incredibly difficult to undertake. It's partly because it's very difficult to distinguish between an activity that's directly related to the curriculum, or to a particular set of legislation around the curriculum, and more general ones. […]
>
> It's also difficult to distinguish between what we are doing now, compared to what we would have done anyway, because, clearly, we always have done work on things related to curriculum and subjects and so forth. So, we found it difficult even to do it in retrospect; calculating it in future is really, really difficult. For example, I don't know what my budget is for next April, and I don't know what the remit letter is for next April. So, it's quite difficult to calculate what proportion of that is going to go towards work related to the curriculum."

- A allwch roi sicrwydd i'r Pwyllgor, yn ngoleuni'r datganiad uchod, eich bod yn hyderus bod darpariaethau'r Bil yn fforddiadwy o safbwynt Estyn?